Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

02 Tachwedd 2016

Annwyl Weinidog

**Ymchwiliad i Waith Ieuenctid**

Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod am yr ohebiaeth rhwng eich swyddogion a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol sy'n datgan y bydd ei grant yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Byddwch yn deall bod gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y datblygiadau hyn a'i fod yn ceisio eglurhad ar frys ynghylch y penderfyniad a wnaed gennych.

Pan ddaethoch i gyfarfod y Pwyllgor ar 12 Hydref, fe'n hysbyswyd gennych fod y Gweinidog blaenorol wedi comisiynu gwaith a oedd yn archwilio modelau ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Dywedasoch y byddech yn trafod y materion gyda grŵp cyfeirio'r Gweinidog ar gyfer gwaith ieuenctid ym mis Rhagfyr – eich cyfarfod cyntaf gyda'r grŵp – cyn gwneud penderfyniad ar fodel ar gyfer y dyfodol.

Ar 31 Hydref cyflwynwyd llythyr i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn rhoi gwybod iddo na fydd yn derbyn cyllid grant ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau canlynol –

1) Ar ba ddyddiad y gwnaethoch chi benderfynu na fyddai Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn derbyn cyllid ar gyfer 2017-18?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

2) Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, y grŵp cyfeirio ar gyfer gwaith ieuenctid neu'r sector ehangach cyn ichi wneud y penderfyniad hwnnw?
3) Ar ba dystiolaeth y gwnaethoch chi seilio eich penderfyniad i beidio ag ariannu Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ar gyfer 2017-18?
4) Pam y gwnaethoch chi newid eich meddwl o ran aros tan fis Rhagfyr i wneud penderfyniad ar fodel ar gyfer y dyfodol?
5) Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer darpariaeth amgen i ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol?
6) Pam y bu'n angenrheidiol gwneud y penderfyniad cyn i'r Pwyllgor gwblhau ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid?

Byddwch yn dod i gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd i drafod y Gyllideb ddrafft. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn cwestiynau eraill ynghylch y mater hwn yn ystod y cyfarfod hwnnw. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn diwedd dydd Llun 7 Tachwedd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet o ran cwrteisi, oherwydd bydd hi'n bresennol yn y cyfarfod ar 10 Tachwedd gyda chi.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

**Copi: Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**